**DEDDF PRIFFYRDD 1980**

**GORCHYMYN GORCHYMYN CEFNFFORDD CASTELL-NEDD I'R FENNI (YR A465) (DEUOLI O'R FENNI I HIRWAUN A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A CHEFNFFORDD MAN I'R DWYRAIN O ABERCYNON I FAN I'R DWYRAIN O DDOWLAIS (YR A4060) A CHEFNFFORDD CAERDYDD I LANSANFFRAID GLAN CONWY (YR A470) (FFYRDD CYSYLLTU) (DOWLAIS TOP I HIRWAUN) (FFYRDD YMYL) 2019 (AMRYWIO) (RHIF 2) 2021**

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 14, 125, 268 a 326 o Ddeddf Priffyrdd 1980 i amrywio Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun) (Ffyrdd Ymyl) 2019, fel y'i hamrywiwyd gan Orchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun) (Ffyrdd Ymyl) 2019 (Amrywio) 2020.

BYDD GORCHYMYN AMRYWIO (RHIF 2) 2021 yn awdurdodi Gweinidogion Cymru—

(a) i wneud y gwaith o wella priffyrdd;
(b) i gau priffyrdd neu rannau o briffyrdd;
(c) i adeiladu priffyrdd newydd;
(d) i gau mynedfeydd preifat i fangreoedd;
(e) i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreoedd;
(f) i gau priffyrdd dros dro;
(g) i ddarparu priffyrdd dros dro; ac
(h) i ddarparu ar gyfer trosglwyddo'r priffyrdd newydd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o'r dyddiad y bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r Cynghorau hynny eu bod wedi eu cwblhau a'u bod ar agor ar gyfer traffig trwodd.

BYDD GORCHYMYN AMRYWIO (RHIF 2) 2021 yn rhoi'r planiau safle diwygiedig sydd wedi eu rhifo 2B, 3B, 4B, 5A, 6B, 9A a 10B yn y portffolio planiau sy'n dwyn y rhif HA14/1 WG25 i'r Gorchymyn Amrywio yn lle'r Planiau Safle sydd wedi eu rhifo 2A, 3A, 4A, 5, 6A, 9 a 10A yn y portffolio planiau sy'n dwyn y rhif HA14/1 WG17 i'r Gorchymyn ac yn gwneud mân ddiwygiadau i erthyglau'r Gorchymyn a'r Atodlenni iddo.

Diben Gorchymyn Amrywio (Rhif 2) 2021 yw darparu awdurdodiad—

**HIGHWAYS ACT 1980**

**THE NEATH TO ABERGAVENNY TRUNK ROAD (A465) (ABERGAVENNY TO HIRWAUN DUALLING AND SLIP ROADS) AND EAST OF ABERCYNON TO EAST OF DOWLAIS TRUNK ROAD (A4060) AND CARDIFF TO GLAN CONWY TRUNK ROAD (A470) (CONNECTING ROADS) (DOWLAIS TOP TO HIRWAUN) (SIDE ROADS) ORDER 2019 (VARIATION) (NO. 2) ORDER 2021**

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under sections 14, 125, 268 and 326 of the Highways Act 1980 to vary The Neath to Abergavenny Trunk Road (A465) (Abergavenny to Hirwaun Dualling and Slip Roads) and East of Abercynon to East of Dowlais Trunk Road (A4060) and Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Connecting Roads) (Dowlais Top to Hirwaun) (Side Roads) Order 2019, as varied by The Neath to Abergavenny Trunk Road (A465) (Abergavenny to Hirwaun Dualling and Slip Roads) and East of Abercynon to East of Dowlais Trunk Road (A4060) and Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Connecting Roads) (Dowlais Top to Hirwaun) (Side Roads) Order 2019 (Variation) Order 2020.

THE VARIATION (NO.2) ORDER 2021 will authorise the Welsh Ministers to—

(a) carry out the improvement of highways;
(b) stop up highways or areas of highway;
(c) construct new highways;
(d) stop up private means of access to premises;
(e) provide new means of access to premises;
(f) close highways temporarily;
(g) provide temporary highways, and
(h) provide for the transfer of the new highways to Merthyr Tydfil County Borough Council, Rhondda Cynon Taf County Borough Council and Caerphilly County Borough Council as from the date the Welsh Ministers notify those Councils that they have been completed and are open for through traffic.

THE VARIATION (NO.2) ORDER 2021 will substitute the Site Plans numbered 2A, 3A, 4A, 5, 6A, 9 and 10A to the plan portfolio HA14/1 WG17 to the Order with the revised site plans numbered 2B, 3B, 4B, 5A, 6B, 9A and 10B in the plan portfolio numbered HA14/1 WG25 to the Variation Order and make minor amendments to the articles and schedules of the Order.

The purpose of the Variation (No.2) Order 2021 is to provide authorisation—

(i) i gael gwared ar y cynllun un system gylchu yng Nghyffordd Hirwaun a rhoi cynllun dwy gylchfan gysylltiedig yn ei le, ynghyd â mân newidiadau i'r trefniadau cau a lleoliad ac aliniad priffyrdd, llwybrau troed a llwybrau beicio newydd;

(ii) i adleoli Pont Droed Pentwyn Cynon i'r dwyrain o'i lleoliad yn y Gorchymyn, ynghyd â mân newidiadau cysylltiedig i aliniad y ddau ramp mynediad wrth ddynesu at y bont i'r gogledd ac i'r de;

(iii) i gael gwared ar y bont droed i gario troetffordd Swansea Road dros Reilffordd Cwm Nedd drwy wneud mân newid i'w haliniad fel bod y llwybr troed i groesi'r rheilffordd yn dod yn rhan o strwythur Tanbont Rheilffordd Cwm Nedd;

(iv) i adleoli Tanffordd Nant Moel i'r gorllewin o'i lleoliad yn y Gorchymyn, ynghyd â newidiadau cysylltiedig i aliniad y ffordd ddynesu at fynedfa breifat o'r gogledd ac o'r de;

(v) i wneud mân newid i aliniad Swansea Road rhwng ei chyffordd â chylchfan ddeheuol Cyffordd Baverstock a chylchfan Swansea Road / Merthyr Road i'r dwyrain;

(vi) i adleoli Pont Droed Llwybr Taf i'r dwyrain o'i lleoliad yn y Gorchymyn, ynghyd â mân newidiadau cysylltiedig i aliniad y ddwy fynedfa ddynesu i'r gogledd ac i'r de;

(vii) i gael gwared ar y cynnig i gau rhannau o'r llwybr troed presennol o dan Draphont Taf Fechan; yn lle hynny, i ddarparu llwybr troed newydd drwy'r Bont Droed Llwybr Taf a gynigir uchod;

(viii) i gael gwared ar y bont droed dros Daf Fechan drwy wneud mân addasiad i aliniad y llwybr troed i'r gogledd fel bod y llwybr troed i groesi'r afon yn dod yn rhan o strwythur Traphont Taf Fechan;

(ix) i adleoli Trosbont Bryniau Road i'r gorllewin o'i lleoliad yn y Gorchymyn, ynghyd â mân addasiad i'r aliniad dynesu i'r gogledd ac i'r de o'r strwythur.

GELLIR EDRYCH AR GOPÏAU o Orchymyn Amrywio (Rhif 2) 2021 a'i blaniau perthnasol, ynghyd â Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun) (Ffyrdd Ymyl) 2019, fel y'i hamrywiwyd gan Orchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun) (Ffyrdd Ymyl) 2019 (Amrywio) 2020, a'r planiau y cyfeirir atynt ynddynt, yn rhad ac am ddim yn ystod oriau rhesymol o 18

(i) to remove the single gyratory layout at Hirwaun Junction and to replace it with a two linked-roundabout layout, along with minor changes to stopping up arrangements and position and alignment of new highways, footpaths and cycletracks;

(ii) to relocate Pentwyn Cynon Footbridge to the East of its location in the Order, along with associated minor changes to the alignment of both approach access ramps to the north and south;

(iii) to remove the footbridge carrying the Swansea Road footway across the Vale of Neath Railway by making a minor modification to its alignment so that the footpath crossing is made part of the Vale of Neath Railway Underbridge structure;

(iv) to relocate Nant Moel Underpass to the west of its location in the Order, along with associated changes to the alignment of the private means of access approach road from both the north and south;

(v) to make a minor change to the alignment of Swansea Road between its junction with the southern roundabout of Baverstock Junction and the Swansea Road / Merthyr Road roundabout to the East;

(vi) to relocate Taff Trail Footbridge to the east of its location in the Order, along with associated minor changes to the alignment of both approach accesses to the north and south;

(vii) to remove the proposal to stop up parts of the existing footpath under Taf Fechan Viaduct; instead providing a new footpath via the above proposed Taff Trail Footbridge;

(viii) to remove the footbridge across Taf Fechan by making a minor modification to the footpath alignment to the north so that the crossing is made part of the Taf Fechan Viaduct structure;

(ix) to relocate Bryniau Road Overbridge to the west of its location in the Order, along with a minor modification of the approach alignment to the north and south of the structure.

COPIES of the Variation (No.2) Order 2021 and its relevant plans, together with the The Neath to Abergavenny Trunk Road (A465) (Abergavenny to Hirwaun Dualling and Slip Roads) and East of Abercynon to East of Dowlais Trunk Road (A4060) and Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Connecting Roads) (Dowlais Top to Hirwaun) (Side Roads) Order 2019, as varied by The Neath to Abergavenny Trunk Road (A465) (Abergavenny to Hirwaun Dualling and Slip Roads) and East of Abercynon to East of Dowlais Trunk Road (A4060) and Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Connecting Roads) (Dowlais Top to Hirwaun) (Side Roads) Order 2019 (Variation) Order 2020, and the plans referred to in them, may be inspected free of charge at

Chwefror 2021 i 1 Ebrill 2021 yn y lleoliad adneuo a ganlyn, fodd bynnag, gweler y cyngor a roddir ym mharagraff:

- Canolfan Busnes Orbit, d/o Future Valleys, Parc Busnes Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1DL.

Yn sgil COVID-19, noder mai dim ond drwy apwyntiad y gellir edrych ar gopïau yng Nghanolfan Busnes Orbit, d/o Future Valleys a dilynir protocolau asesu risg a diogelwch. I unrhyw un nad yw'n gallu mynd i'r lleoliad adneuo yn ystod y cyfnod adneuo a grybwyllir uchod, bydd Future Valleys yn danfon y dogfennau adneuo am gyfnod dros dro i leoliad cyfleus ar gyfer edrych arnynt ac yn eu casglu er mwyn annog pobl i beidio â theithio i edrych ar y dogfennau gan fod y cyfyngiadau COVID-19 a'r cyngor i aros gartref yn parhau. Dylid gwneud apwyntiadau drwy'r Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd, Martin Gallimore, gan ddefnyddio'r wybodaeth gyswllt a ganlyn: ffôn symudol, 07762 451850, ac e-bost A465enquiries@futurevalleysconstruction.com.

Gellir cael copïau o'r Gorchymyn, sydd â'r enw "Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lansanffraid Glan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Dowlais Top i Hirwaun) (Ffyrdd Ymyl) 2019 (Amrywio) (Rhif 2) 2021" oddi wrth y Gangen Gorchmynion Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn hwn ac sy'n dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaethau sydd ynddo, ar y sail;

a. nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980; neu
b. na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o ofynion y Ddeddf neu'r rheoliadau a wnaed oddi tani,

o fewn 6 wythnos iddynt ddod yn weithredol, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o Orchymyn Amrywio (Rhif 2) 2021 ynghyd â Gorchymyn Ffyrdd Ymyl 2019 a Gorchymyn Amrywio 2020 a'r holl Orchmynion a wnaed ar gyfer y cynllun a gyhoeddwyd a'r Hysbysiad hwn a'r Planiau ar https://llyw.cymru/a465-rhan-5-6-dowlais-top-hirwaun.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**GARETH JONES**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

reasonable hours from 18 February 2021 to 1 April 2021 at the following deposit location, however please see advice at paragraph below:

- Orbit Business Centre, c/o Future Valleys, Rhydycar Business Park, Merthyr Tydfil, CF 48 1DL.

Please note that due to COVID-19, viewings at the Orbit Business Centre, c/o Future Valleys are strictly by appointment only and will follow risk assessments and safety protocols. For anyone unable to attend the deposit location in person during the deposit period mentioned above, Future Valleys will temporarily deliver the deposit documents to a convenient location for inspection and collect them in order to discourage travel and inspection in person as the COVID-19 restrictions and advice to stay at home remains. Appointments should be made via the Public Liaison Officer, Martin Gallimore, using the following contact information: mobile phone, 07762 451850, and email A465enquiries@futurevalleysconstruction.com.

Copies of the Order, the title of which is "The Neath to Abergavenny Trunk Road (A465) (Abergavenny to Hirwaun Dualling and Slip Roads) and East of Abercynon to East of Dowlais Trunk Road (A4060) and Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Connecting Roads) (Dowlais Top to Hirwaun) (Side Roads) 2019 (Variation) (No.2) Order 2021" can be obtained from Transport Orders Branch, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

If any person aggrieved by this Order desires to question its validity, or of any of the provisions contained in it, on the ground that:

a. it is not within the powers of the Highways Act 1980; or
b. that any requirement of the Act or of regulations made under it has not been complied with,

that person may, within 6 weeks of them becoming operative make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Variation (No.2) Order 2021 together with the Side Roads Order 2019 and the Variation Order 2020 and all of the made Orders for the published scheme and this Notice and Plans can be viewed at https://gov.wales/a465-section-5-and-6-dowlais-top-hirwaun.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**GARETH JONES**
Transport
Welsh Government